



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Fframwaith Gweithredu Drafft ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol

Gwella canlyniadau ar gyfer dysgwyr sy'n derbyn darpariaeth addysg
heblaw yn yr ysgol

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2017

Fframwaith Gweithredu Drafft ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol

Cynulleidfa	Staff ac athrawon sy'n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion; staff sy'n gweithio mewn ffurfiau ehangach o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS); penaethiaid; darparwyr EOTAS preifat a thrydydd sector; awdurdodau lleol.
Trosolwg	Roedd yr ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar y cynigion yn y <i>Fframwaith Gweithredu drafft ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol</i> .
Camau i'w cymryd	Dim.
Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at: Gemma Wilks Is-adran Cymorth i Ddysgwyr Y Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ Ffôn: 0300 256939 e-bost: WellbeingShare@llyw.cymru
Dogfennau cysylltiedig	<i>Evaluation of education provision for children and young people educated outside the school setting – Final report</i> (2013) <i>Addysg Heblaw yn yr Ysgol: arolwg arfer dda</i> (Estyn, 2015) <i>Addysg heblaw yn yr ysgol</i> (Estyn, 2016) <i>Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2013–2014</i> (Estyn, 2015) <i>Yr hawl i ddysgu: Cefnogi plant a phobl ifanc mewn unedau cyfeirio disgyblion i gyrraedd eu potensial</i> (Comisiynydd Plant Cymru, 2014) <i>Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion</i> (2015) <i>Dyfodol Llwyddiannus – Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru</i> (2015) <i>Model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol</i> (2015)

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Crynodeb o'r ymatebion	3
Cwestiwn 1	3
Cwestiwn 2	4
Cwestiwn 3	5
Cwestiwn 4	6
Cwestiwn 5	7
Cwestiwn 6	9
Cwestiwn 7	10
Cwestiwn 8	10
Atodiad: Rhestr o ymatebwyr	14

Cyflwyniad

Derbyniodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS), dan gadeiryddiaeth cyn Brif Arolygydd Estyn, Ann Keane, y dasg o ddatblygu cyfres o atebion ymarferol i'r materion yn ymwneud â darpariaeth EOTAS a godwyd mewn sawl adroddiad ar ôl ei gilydd gan Brifysgol Caeredin, Comisiynydd Plant Cymru ac Estyn.

Cwblhaodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen EOTAS ei Fframwaith Gweithredu EOTAS ym Mawrth 2017, ac fe'i cyflwynwyd i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg am ystyriaeth.

Derbyniodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg 34 cynnig y Fframwaith Gweithredu EOTAS yn amodol ar ymgynghoriad. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 5 Mehefin – 31 Gorffennaf 2017 ac fe'i cefnogwyd gan ddau ddigwyddiad ymgynghori. Mae'r ddogfen yn darparu crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r cwestiynau penodol ac yn amlinellu'r ffordd arfaethedig ymlaen.

Crynodeb o'r ymatebion

Derbyniodd yr ymgynghoriad 46 o ymatebion. Mae rhestr o'r ymatebwyr wedi'i gynnwys yn atodiad 1.

Cwestiwn 1

A ydych yn cytuno â'r bwriad i gyflwyno paneli addysg heblaw yn yr ysgol mewn awdurdodau lleol i oruchwyllo a monitro lleoliadau yn y ddarpariaeth honno?

Ydw	Nac ydw	Ddim yn siŵr	Dim sylw	Cyfanswm
37	1	7	1	46
80.4%	2.2%	15.2%	2.2%	100%

Yr oedd y mwyafrif o'r ymatebion yn croesawu'r bwriad i gyflwyno paneli addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS), oherwydd ei fod yn cael ei dderbyn yn gyffredinol y gellid gwella ar gadernid y broses gyfeirio a'r oruchwyliaeth ar leoliadau. Ar y cyfan, yr oedd yr ymatebwyr hefyd yn cytuno y byddai canllawiau gan Lywodraeth Cymru ar sefydlu a gweithredu paneli o gymorth i ddarparu eglurder o ran bwriad a chysondeb y dull gweithredu yn enwedig pan fo dysgwyr yn symud rhwng gwahanol ddarpariaethau a/neu ar draws ffiniau Awdurdodau Lleol.

Fodd bynnag, codwyd cwestiynau mewn rhai ymatebion ynghylch atebolrwydd a her. Er enghraifft, pa awdurdod fyddai gan baneli addysg heblaw yn yr ysgol i wrthod neu ailgyfeirio cais am gyfeiriad? Yn yr un modd, pa ddewis fyddai gan ysgol o ran apelio pe byddai cais yn cael ei wrthod?

Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru hefyd roi ystyriaeth bellach i sut y gallai'r cynigion gael eu cysylltu â gofynion ac arferion presennol er mwyn osgoi ychwanegu haenau diangen o fiwrocratiaeth ar gyfer gweithwyr proffesiynol a dysgwyr agored i niwed fel ei gilydd.

Yr oedd llawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn gwneud awgrymiadau ynghylch cyfansoddiad a chylch gorchwyl paneli EOTAS; yr oedd yr holl ymatebion hyn yn cydnabod y dylai'r panel fod yn aml-asiantaeth ac y dylai ystyried holl ystod anghenion dysgwr a'i amgylchiadau wrth adolygu cyfeiriad i bennu'r gefnogaeth fwyaf addas y gellid ei chynnig.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen am waith pellach i ddatblygu manylion y polisi ar sefydlu paneli cyfeirio. Mae'r Grŵp Cyflawni EOTAS, dan gadeiryddiaeth yr Athro Brett Pugh, wedi ei sefydlu i roi'r Fframwaith Gweithredu EOTAS terfynol ar waith wrth ystyried canfyddiadau'r ymgynghoriad hwn. Mae'r argymhellion ynghylch y cyfansoddiad, cylch gorchwyl a'r cylch gwaith wedi cael eu casglu ochr yn ochr â'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y ddau ddigwyddiad ymgynghori a byddant yn cael eu defnyddio i oleuo datblygu polisi wrth roi'r Fframwaith Gweithredu ar waith fesul cam.

Cwestiwn 2

A ydych chi'n cytuno â'r cynigion i ehangu'r gwasanaethau dysgu, datblygu a chymorth i aelodau pwyllgorau rheoli?

Ydw	Nac ydw	Ddim yn siŵr	Dim sylw	Cyfanswm
35	2	8	1	46
76%	4.4%	7.4%	2.2%	100%

Yr oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai gwasanaethau dysgu, datblygu a chefnogi gael eu hymestyn i aelodau pwyllgorau rheoli. Yr oedd y cytundeb hwn wedi'i seilio ar ddisgwyliad y byddai ehangu'r gwasanaethau dysgu a datblygu a'r gwasanaethau cefnogi yn helpu i sicrhau her a chefnogaeth gadarn i bwyllgorau rheoli. Yr oedd ymatebwyr hefyd yn credu y byddai ehangu gwasanaethau yn fodd o egluro rolau a chyfrifoldebau pwyllgorau rheoli ac yn helpu i godi eu statws a allai annog aelodaeth ehangach.

Roedd y farn wedi'i hollti ynghylch pwy ddylai gynnal y cyfrifoldeb dros ddarparu cefnogaeth i aelodau pwyllgorau rheoli. Credai rhai ymatebwyr y dylai awdurdodau lleol fod yn gyfrifol am gefnogi pwyllgorau rheoli gan eu bod hefyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cefnogi i gyrff llywodraethol ysgolion ac felly dylent fod yn ymwybodol eisoes o faterion yn codi wrth lywodraethu gwasanaethau addysgol o ddydd i ddydd. Teimlai ymatebwyr eraill y byddai'n fwy priodol i gonsortia rhanbarthol reoli'r gwasanaethau cefnogi a oedd yn cael eu cynnig i bwyllgorau rheoli. Credai'r ymatebwyr hynny y byddai gweithio fel consortia rhanbarthol yn galluogi datblygu rhwydweithiau yn y sector EOTAS a allai annog gweithio cydweithredol a rhannu arfer gorau. Gan ystyried y nifer cymharol isel o bwyllgorau rheoli UCD ledled Cymru, gallai cefnogaeth gan gonsortia rhanbarthol gynnig arbedion ar gyfer gwasanaethau cefnogi a rhaglenni dysgu a datblygu.

Yr oedd adborth arall a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar ba hyfforddiant a datblygu a deunyddiau cefnogi y dylid eu darparu i bwyllgorau rheoli. Yr oedd yr awgrymiadau hyn yn cynnwys y dylai aelodau pwyllgorau rheoli dreulio rhywfaint o amser yn cysgodi athrawon mewn gofal a staff eraill UCD i helpu i ddatblygu dealltwriaeth o'r heriau a'r bodlonrwydd dyddiol o weithio gyda dysgwyr agored i niwed.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y byddai llawlyfr ar gyfer pwyllgorau rheoli o gymorth o ran egluro rolau a chyfrifoldebau ar gyfer aelodau pwyllgorau rheoli, ac mae wedi comisiynu Llywodraethwyr Cymru i ddatblygu llawlyfr, tebyg i'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd i aelodau cyrff llywodraethu ysgolion. Rhagwelwn y byddai'r llawlyfr hwn ar gael i bwyllgorau rheoli yn gynnar yn 2018.

Yn ogystal â chomisiynu llawlyfr, sefydlwyd is-grŵp o blith Grŵp Cyflawni EOTAS i ystyried y dysgu, y datblygu a'r gefnogaeth a ddylai gael eu darparu i bwyllgorau rheoli. Bydd yr is-grŵp yn ystyried ymatebion yr ymgynghoriad o ran rhoi'r gweithredu allweddol hwn ar waith a bydd yn parhau i weithio'n uniongyrchol gyda

rhanddeiliaid mewn Awdurdodau Lleol, consortia rhanbarthol ac UCD i ganfod y ffordd fwyaf priodol o ddarparu gwasanaethau cefnogi a rhaglen ddysgu a datblygu.

Cwestiwn 3

A ydych yn cytuno â'r bwriad i sefydlu fframweithiau comisiynu awdurdodau lleol i sicrhau ansawdd ac addasrwydd y gwasanaethau heblaw yn yr ysgol a ddefnyddir?

Ydw	Nac ydw	Ddim yn siŵr	Dim sylw	Cyfanswm
36	2	7	1	46
78.2%	4.4%	15.2%	2.2%	100%

Yr oedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno gyda chyflwyno fframweithiau comisiynu ac yn cytuno yn gyffredinol y byddai fframweithiau comisiynu yn helpu i roi eglurder, cysondeb a thryloywder.

Teimlai ymatebwyr hefyd y dylai canllawiau gan Lywodraeth Cymru nodi gofynion sylfaenol ar gyfer gwasanaethau yn y sector preifat neu'r trydydd sector a fyddai'n dymuno darparu gwasanaethau i ysgol neu awdurdod lleol. Credid y byddai cynhyrchu canllawiau gan Lywodraeth Cymru ar ofynion sylfaenol yn darparu proses safonol a set o ddisgwyliadau ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion a fyddai'n ceisio comisiynu gwasanaethau. Byddai'r ddogfen ganllaw hefyd yn darparu cysondeb ar gyfer sefydliadau'r sector preifat a'r trydydd sector a fyddai'n dymuno ymgysylltu ar draws ardaloedd sawl awdurdod lleol.

Fel gyda'r ail gwestiwn yn yr ymgynghoriad hwn, yr oedd yr ymatebwyr yn rhanedig ynghylch pwy ddylai gymryd cyfrifoldeb dros gynnal y fframwaith comisiynu a'r gronfa ddata gysylltiedig o ddarparwyr 'cymeradwy'. Credai rhai ymatebwyr y dylai awdurdodau lleol fod yn gyfrifol am y fframwaith comisiynu gan eu bod eisoes yn gyfrifol am ddarparu EOTAS dan adran 19 Deddf Addysg 1996. Yr oedd ymatebwyr eraill yn pledio achos consortia rhanbarthol i reoli'r fframwaith comisiynu. Gan mai gwasanaethau EOTAS cyfyngedig sydd ar gael gan rai awdurdodau lleol yn eu hardal, a'u bod felly'n comisiynu gwasanaethau traws-ffiniau, yr oedd rhai ymatebion yn cydnabod y gallai bod â fframwaith comisiynu rhanbarthol ddarparu mwy o gyfleoedd ar gyfer darparu gweithgareddau cyfoethogi a'r cwricwlwm newydd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn, er mwyn darparu proses safonedig a chysondeb o ran disgwyliadau, y dylai canllawiau cenedlaethol yn nodi gofynion sylfaenol gael eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru.

Fel gyda chwestiynau eraill a holir yn yr ymgynghoriad hwn, cyflwynodd nifer o ymatebwyr awgrymiadau ar gyfer gofynion a allai ymddangos yn y fframwaith comisiynu, a fydd yn cael eu casglu ac yn ein goleuo wrth ddatblygu'r canllawiau.

Yn yr ymatebion, gwnaed nifer o sylwadau ynghylch ystyriaethau ehangach, yn benodol ynghylch sut y gallai newidiadau i gomisiynu EOTAS effeithio ar y Llwybrau

Dysgu 14-19 a beth yw'r goblygiadau ar gyfer cyllido lleoliadau a dosbarthu'r Grant Datblygu Disgyblion a beth fyddai'r goblygiadau ar gyfer cyllido lleoliadau a dosbarthu'r Grant Datblygu Disgyblion (PDG) Gan nad yw gofynion a phrosesau sylfaenol wedi cael eu datblygu eto, mae'n anodd rhagweld sut y gallai'r fframwaith comisiynu effeithio ar fynediad i Lwybrau Dysgu 14-19 neu drefniadau ariannu. Caiff hyn ei adolygu wrth i brosesau EOTAS gael eu datblygu. Fodd bynnag, rhoddir ystyriaeth i'r goblygiadau ehangach a rhoddir cyfle i randdeiliaid wneud sylwadau pellach ar weithredu fframweithiau comisiynu'n ymarferol.

Cwestiwn 4

A ydych chi'n cytuno â bwriad i safoni polisiau a gweithdrefnau cofrestru a chasglu data?

Ydw	Nac ydw	Ddim yn siŵr	Dim sylw	Cyfanswm
31	1	11	3	46
67.4%	2.2%	23.9%	6.5%	100%

Er bod y mwyafrif o ymatebwyr yn cytuno y dylid cyflwyno gweithdrefn safonol o gofrestru a diogelu data; roedd nifer o ymatebwyr yn ansicr.

Codwyd pryderon mewn nifer o ymatebion ei bod yn anodd barnu a ddylid cyflwyno cofrestru safonedig a gweithdrefnau casglu data, tra bo nifer o ddangosyddion perfformiad yn cael eu hystyried gan y sector yn amhriodol neu ddim yn adlewyrchu'r gwaith a wneir gan wasanaethau EOTAS.

Yr oedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn cytuno y dylid cyflwyno proses safonol ar gyfer cofrestru a chasglu data yn croesawu'r eglurder a ddeuai yn sgil polisi cenedlaethol. Credai ymatebwyr hefyd y byddai cyflwyno polisi cenedlaethol ynghylch cofrestru dysgwyr EOTAS, waeth beth fyddai'r polisi yn ei olygu'n ymarferol, i'w groesawu gan y byddai'n mynd beth o'r ffordd tuag at annog peidio camddefnyddio data, a gafodd ei nodi fel mater mewn nifer o ymatebion gan awdurdodau lleol.

Yr oedd rhai ymatebion yn ceisio esboniad ynghylch cynlluniau i ddefnyddio'r data a gaiff ei gasglu. Codwyd pryderon ynghylch tynnu cymhariaeth rhwng dysgwyr UCD/EOTAS a'r rhai yn cael eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd; teimlai ymatebwyr y byddai hyn yn annheg oherwydd mannau cychwyn gwahanol y dysgwyr hyn. Ceisiwyd eglurhad hefyd ynghylch atebolrwydd: pwy fyddai'n berchen ar y data? Tra bo rhai ymatebwyr yn aneglur ynghylch y cysylltiad rhwng atebolrwydd dros ddata a chanlyniadau dysgwyr, teimlai eraill y byddai sicrhau bod ysgolion prif ffrwd yn cadw cyfrifoldeb dros ddata yn annog 'diddordeb penodol' yn y dysgwyr ac yn gwella canlyniadau.

Yr oedd ystyriaethau ehangach, a godwyd mewn rhai ymatebion i'r ymgynghoriad, i Lywodraeth Cymru eu hystyried yn ymwneud â threfniadau ariannu, Fframwaith Arolygu newydd Estyn ac egluro diffiniad addysg heblaw yn yr ysgol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Fel y nodwyd yn y Fframwaith Gweithredu drafft, ni fu modd i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Addysg Heblaw yn yr Ysgol ystyried diwygiadau i'r dangosyddion perfformiad allweddol megis lefel 1 a lefel 2 gynhwysol, gan fod goblygiadau newidiadau yn llawer ehangach na'r sector EOTAS. Byddai angen ystyried y newidiadau hyn yn erbyn yr holl sector addysg orfodol i osgoi unrhyw ynysu pellach ar y sector EOTAS. Mae Grŵp Cyflawni EOTAS wedi dechrau bwydo'r rhain i drafodaethau ehangach.

Yn ystod ei drafodaethau cynnar, nododd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr angen i gynnal dadansoddiad o arferion cofrestru presennol Awdurdodau Lleol. Mae'r dadansoddiad hwn wedi'i gwblhau a bydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn gynnar yn 2018. Caiff canlyniadau'r dadansoddiad eu defnyddio gyda chanlyniadau'r ymgynghoriad hwn i ddatblygu polisi cenedlaethol ar gyfer cofrestru dysgwyr EOTAS.

Wrth bennu beth fydd y polisi cenedlaethol yn ei olygu, bydd Grŵp Cyflawni EOTAS yn ystyried pob canlyniad bwriadol ac yn ceisio canfod canlyniadau anfwriadol posibl hefyd. Bydd hyn yn cynnwys alinio gyda fframwaith arolygu Estyn a'r goblygiadau ar gyfer cyllido lleoliadau a rhannu hawl i PDG.

Yr oedd y naratif ar ddechrau'r Fframwaith Gweithredu drafft yn ceisio darparu eglurder o ran sefyllfa Llywodraeth Cymru yng nghyswllt beth yw darpariaeth 'EOTAS' a'r dryswch a achoswyd drwy ddefnyddio gwahanol derminoleg megis 'darpariaeth amgen' neu 'gwricwlwm amgen' nad oes unrhyw sail iddynt yng nghyfraith Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio darparu eglurhad pellach, cyn belled ag y bo'n bosibl, mewn canllawiau pellach.

Cwestiwn 5

A ydych chi'n cytuno â'r bwriad i atal datgymhwyso'r cwricwlwm ar draws sefydliad cyfan mewn addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys mewn unedau cyfeirio disgyblion?

Ydw	Nac ydw	Ddim yn siŵr	Dim sylw	Cyfanswm
26	7	12	1	46
56.6%	15.2%	26%	2.2%	100%

Er bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid atal y gallu i ddatgymhwyso'r cwricwlwm ar draws sefydliad cyfan, dim ond o drwyth blewyn yr oedd cytundeb ar hyn. Fodd bynnag, yr oedd yn ymddangos bod dryswch ymysg rhai ymatebwyr ynghylch beth fyddai goblygiadau ymarferol y cynnig yn debygol o fod. O'r herwydd, nid oedd rhai o'r sylwadau a wnaed gan ymatebwyr yn cefnogi eu hateb cychwynnol.

Yr oedd bron y cyfan o'r ymatebion cadarnhaol yn nodi'r angen i deilwra darpariaeth, ar sail anghenion y dysgwr unigol. Yr oedd un ymateb yn dadlau y dylai datgymhwyso 'cyfan gwbl' barhau gan ailgymhwyso'r cwricwlwm ar sail dysgwyr unigol. Yr oedd llawer hefyd yn croesawu'r cynnig gan ei fod yn adlewyrchu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn drwy hyrwyddo mynediad at addysg addas ar gyfer pob dysgwr.

Yr oedd rhai ymatebwyr yn cytuno y byddai'r agweddau creadigrwydd a dysgu gwahaniaethol a oedd yn cael eu cynnwys mewn diwygiadau addysgol yn meddu ar yr hyblygrwydd angenrheidiol i gael eu cyflwyno drwy unedau cyfeirio disgyblion (UCD) a lleoliadau EOTAS eraill. Fodd bynnag, nid oedd rhai ymatebwyr yn teimlo eu bod yn gwybod digon am y gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm i allu rhoi ymateb seiliedig ar wybodaeth gywir; awgrymodd yr ymatebwyr hyn y dylid sefydlu rhwydwaith cyfathrebu ar gyfer diwygio'r cwricwlwm, gan gynnwys darparwyr UCD/EOTAS.

Yr oedd ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig hwn yn gwneud hynny ar sail ystyriaethau llwyth gwaith athrawon a'r goblygiadau ar gyfer cyflawni. Codwyd pryderon penodol ynghylch gallu staff UCD ac EOTAS a'r angen i Lywodraeth Cymru roi cefnogaeth yn ei lle i uwchsgilio staff. Gofynnwyd am eglurhad hefyd ar gynlluniau i ganolfannau llai gyflwyno'r cwricwlwm, yn enwedig rhai sy'n gweithredu mewn ardaloedd gwledig.

Yr oedd yr ymatebion hefyd yn cynnwys awgrymiadau ynghylch sut y gellir rhoi'r cynnig hwn ar waith. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi arweiniad i roi cyngor ar y broses ar gyfer datgymhwyso'r cwricwlwm a'r meini prawf y dylid eu hystyried. Awgrymwyd proses ar gyfer monitro'r datgymhwyso hefyd, gan y byddai unrhyw ddatgymhwyso'n cael ei ystyried fel mesur tymor byr, a oedd yn codi'r cwestiwn pwy fyddai'n goruchwylio'r broses o ddatgymhwyso. Credai un ymatebydd y dylai'r consortia rhanbarthol fod yn goruchwylio'r penderfyniadau hyn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

I egluro; nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar gael gwared â'r gallu i ddatgymhwyso'r cwricwlwm ar gyfer dysgwyr unigol. Mae'r cynnig yn ceisio atal datgymhwyso ar draws sefydliad cyfan. Cred Llywodraeth Cymru y dylai'r dysgwr fod wrth galon y broses o wneud penderfyniadau; nid yw datgymhwyso ar draws sefydliad cyfan yn caniatáu ar gyfer cynnwys ystyried gofynion, dewisiadau a gallu'r dysgwr yn briodol wrth wneud penderfyniadau ynghylch eu haddysg.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid disgwyl i UCD a darparwyr EOTAS eraill gyflwyno'r cwricwlwm diwygiedig ar ben eu hunain. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd llawer o ddarparwyr yn rhy fach i ddarparu'r cwricwlwm, sy'n un o'r prif resymau y tu ôl i gryfhau gweithio mewn partneriaeth a rhwydweithiau cydweithredol, fel y nodwyd yn adran naratif i fframwaith drafft.

Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno bod angen cryfhau'r rhwydwaith cyfathrebu ar gyfer UCD a darparwyr EOTAS eraill ac mae ar hyn o bryd yn archwilio opsiynau i rannu gwybodaeth ac arfer da rhwng UCD a darparwyr EOTAS eraill, prif ffrwd ac ysgolion arbennig. Mae'r opsiynau hyn yn cynnwys ymestyn y gwasanaeth Hwb i ddarparwyr EOTAS (mae eisoes ar gael i UCD).

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cytuno y byddai arweiniad ar y broses datgymhwyso yn darparu cysondeb o ran dull gweithredu ac eglurder o ran disgwyliadau. Bydd cael gwared â'r gallu i ddatgymhwyso ar draws sefydliad cyfan yn galw am newid yn y gyfraith ac felly ni allai ddigwydd ar unwaith; yn y cyfamser,

bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio darparu arweiniad pellach ar ddisgwyliadau ar gyfer mynediad at y cwricwlwm mewn UCD a darpariaeth EOTAS arall.

Nid yw diwygio'r cwricwlwm yn digwydd mewn gwagle, mae gwaith yn cael ei ddatblygu i baratoi athrawon a staff ysgolion i gyflwyno cwricwlwm diwygiedig. Wrth roi'r Fframwaith Gweithredu EOTAS ar waith bydd y Grŵp Cyflawni EOTAS yn sicrhau bod staff UCD ac EOTAS eraill yn cael eu cynnwys yn y paratodau hyn.

Cwestiwn 6

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, ac yn benodol ar:

- **Gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a**
- **Pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Dywedodd llawer o'r ymatebwyr na allent ddychmygu sut y byddai'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer EOTAS yn cael unrhyw effaith ar ddefnyddio'r iaith Gymraeg. Fodd bynnag, nododd rhai ymatebwyr gynigion unigol yn y Fframwaith Gweithredu a fyddai'n achosi canlyniadau anuniongyrchol ar y defnydd o'r iaith Gymraeg. Er enghraifft, bydd canllawiau ar ddatgymhwyso'r cwricwlwm a chomisiynu fframweithiau yn helpu i egluro disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gwasanaeth EOTAS drwy gyfrwng y Gymraeg, a allai fod wedi'u hystyried yn rhai a oedd wedi'u heithrio o'r gofynion.

Codwyd pryderon ynghylch y prinder staff Cymraeg eu hiaith a oedd yn cael eu recriwtio i UCD a gwasanaethau EOTAS eraill; awgrymodd un ymateb y dylid adolygu'r rheoliadau o ran Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon (ITET) er mwyn galluogi i ITET ddigwydd mewn UCD.

Tynnodd Comisiynydd Plant Cymru sylw wrth ymateb i'r ymgynghoriad at gymariaethau rhwng UCD a darpariaeth EOTAS arall yng Nghymru ag ysgolion arbennig yng Nghymru, gan annog y Grŵp Cyflawni EOTAS i ystyried canfyddiadau'r prosiect ar y cyd rhwng Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg ynghylch argaeledd darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer plant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Ymateb Llywodraeth Cymru

Bydd cyflwyno paneli a chanllawiau EOTAS sy'n egluro ein disgwyliadau yn helpu i sicrhau bod anghenion, dewisiadau a galluoedd y dysgwr yn cael blaenoriaeth yn y broses o wneud penderfyniadau. Bydd hyn yn cynnwys ystyried beth sydd orau gan y dysgwr o ran iaith.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod cymhlethdod sicrhau bod darpariaeth arbenigol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg; yn enwedig yng nghyswllt argaeledd gweithlu. Bydd cryfhau gweithio mewn partneriaeth a rhwydweithiau

cydweithredol rhwng UCD ac EOTAS eraill, ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig yn darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer cyflwyno'r iaith Gymraeg, fel iaith gyntaf ac ail iaith ac annog mwy o athrawon gyda gallu yn yr iaith Gymraeg i ystyried gweithio gyda'r dysgwyr bregus a chymhleth hyn.

O ran yr awgrym ynghylch adolygu rheoliadau ITET, mae UCD ar hyn o bryd wedi'u gwahardd rhag cynnig lleoliadau i'r rhai sy'n dilyn ITET, gan nad yw'n ofynnol iddynt gyflwyno'r cwricwlwm llawn ar hyn o bryd. Hyd nes y ceir gwared â datgymhwyso ar draws sefydliad cyfan, bydd UCD yn parhau wedi'u gwahardd rhag darparu lleoliadau ITET. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio'r opsiynau ar gyfer cael gwared â'r cyfyngiadau hyn.

Cwestiwn 7

Eglurwch hefyd sut yn eich barn chi y gellid ffurfio neu newid y Fframwaith ar gyfer Gweithredu addysg heblaw yn yr ysgol:

- **Fel eu bod yn cael effeithiau andwyol cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; ac**
- **Fel nad ydynt yn cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Nid oedd cwpl o'r ymatebion a dderbyniwyd yn gallu nodi unrhyw effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg; a chafodd rhai o'r pryderon a godwyd mewn ymateb i gwestiwn 6 eu hailadrodd yma. Yn benodol, argaeledd darpariaeth ETOAS yn yr iaith Gymraeg a gallu staff EOTAS i gyflwyno addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yr oedd mwyafrif yr effeithiau cadarnhaol a nodwyd gan gwestiwn 7 hefyd wedi'u hailadrodd o gwestiwn 6.

Yn benodol canfuwyd bod gan y fframwaith comisiynu a'r paneli EOTAS botensial i effeithio'n gadarnhaol ar ddefnyddio'r iaith Gymraeg, drwy ganfod y galw'n well, drwy baneli EOTAS, a goleuo comisiynu darpariaeth newydd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Fframwaith Gweithredu EOTAS yn darparu trosolwg strategol o newidiadau arfaethedig. Bydd manylion y newidiadau unigol hyn yn cael eu datblygu gan y Grŵp Cyflawni EOTAS gan ddefnyddio canlyniadau'r ymgynghoriad hwn a'r adborth o ddigwyddiadau ymgynghorol. Bydd uchafu effaith y cynigion hyn ar gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn fater i Grŵp Cyflawni EOTAS ei ystyried.

Cwestiwn 8

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym ni wedi rhoi sylw penodol iddynt, cymerwch y cyfle hwn i roi gwybod i ni.

Yr oedd y rhan hon o'r ymgynghoriad yn rhoi cyfle i ymatebwyr wneud unrhyw sylwadau ychwanegol. Yr oedd y sylwadau a oedd yn digwydd amlaf yn ymwneud â rôl consortia rhanbarthol.

Yr oedd y sylwadau a dderbyniwyd ynghylch consortia rhanbarthol yn gymysg. Yr oedd rhai ymatebwyr yn croesawu unrhyw ymwneud gan y consortia rhanbarthol, yn enwedig o ran cael mynediad at ddatblygiad proffesiynol. Fodd bynnag, yr oedd ymatebwyr eraill yn llai awyddus i gonsortia rhanbarthol ddod yn gysylltiedig, gan mai awdurdodau lleol sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyfer darparu gwasanaethau EOTAS, a dadleuwyd, ar hyn o bryd, nad oes gan gonsortia rhanbarthol yr arbenigedd angenrheidiol i weithio gyda darparwyr EOTAS.

Derbyniwyd sylwadau hefyd ynghylch yr angen i Lywodraeth Cymru gynnig dull gweithredu cenedlaethol yng nghyswllt rhai cynigion, megis cofrestru dysgwyr EOTAS, i sicrhau cysondeb ar draws Cymru. Galwodd sawl ymatebydd hefyd am eglurhad pellach ynghylch y diffiniad o wasanaethau EOTAS. Gyda'i gilydd, gall llawer o'r sylwadau sydd ar ôl gael eu dosbarthu fel dymuniad am fwy o gydraddoldeb rhwng gwasanaethau EOTAS ac ysgolion prif ffrwd dros ystod o bynciau. Mae'r pynciau hyn yn cynnwys mynediad at ddatblygiad proffesiynol parhaus, goblygiadau ariannol a chynnwys staff UCD/EOTAS yn y paratodau ar gyfer diwygio'r cwricwlwm.

Codwyd rhai pryderon ynghylch pa ystyriaeth a roddodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen EOTAS i ddysgwyr gydag ADY, dysgwyr sy'n blant yn derbyn gofal (LAC) a rôl llais y disgybl, a pham nad oedd yr ystyriaethau hyn wedi eu hamlygu yn y Fframwaith Gweithredu.

Yn olaf, derbyniwyd ychydig o sylwadau ynghylch statws cofrestru darparwyr y sector preifat a'r trydydd sector, ac a ddylai gofynion cofrestru gael eu sefydlu gan Lywodraeth Cymru, tebyg i system cofrestru ysgolion annibynnol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Yng nghyswllt y sylwadau ynghylch ymwneud gan gonsortia rhanbarthol, pery'r awdurdod lleol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau EOTAS. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn archwilio opsiynau i annog rhwydweithiau cydweithredol i helpu i sicrhau lledaenu arfer da, cyflwyno cwricwlwm diwygiedig a gwella cyfleoedd datblygu, ac mae gweithio'n rhanbarthol yn chwarae rhan yn yr ystyriaethau hyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i ddarparu mwy o gyfeiriad strategol o ran darpariaeth EOTAS, ac adlewyrchir hyn gydol y Fframwaith Gweithredu lle y mae canllawiau neu bolisi cenedlaethol wedi eu cynnig. Bydd achlysuron lle y byddai polisi neu broses genedlaethol wedi bod yn briodol, h.y. lle y bydd demograffeg a daearyddiaeth ardal Awdurdod Lleol yn cael effaith sylweddol ar y camau a gymerir.

Yng nghyswllt sylwadau sydd wedi cael eu hystyried gyda'i gilydd fel rhai ynghylch 'cynyddu cydraddoldeb' a'r rhai a oedd yn gofyn am fwy o eglurhad ynghylch beth mae gwasanaeth EOTAS yn ei olygu, ni wnaed sylwadau dan gwestiwn 8 nad oeddynt wedi cael eu gwneud mewn mannau eraill yn yr ymgynghoriad ac felly maent wedi derbyn ymateb gydol y ddogfen hon. Nid yw'r cynigion yn y Fframwaith

Gweithredu wedi cael eu datblygu mewn gwagle a bydd y Grŵp Cyflawni EOTAS yn gweithio i sicrhau bod anghenion dysgwyr a staff EOTAS yn cael eu hadlewyrchu mewn diwygiadau addysgol ehangach.

Ar hyn o bryd mae ystadegau Llywodraeth Cymru yn dangos bod dros 80% o'r dysgwyr sy'n derbyn darpariaeth EOTAS â rhyw fath o angen addysgol arbennig wedi'i ddynodi (un ai fel Gweithredu gan yr Ysgol, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu Ddatganiad). Yr oedd anghenion y dysgwyr hyn felly yn rhan hanfodol o ystyriaethau Grŵp Gorchwyl a Gorffen EOTAS (yr oedd cyfansoddiad y Grŵp yn cynnwys Pennaeth Ysgol Arbennig). Er nad yw naratif y ddogfen Fframwaith Datblygu yn cynnwys cyfeiriadau penodol at ddysgwyr gyda ADY, mae anghenion y dysgwyr bregus hyn ymhlyg gydol y ddogfen. Bydd Grŵp Cyflawni Addysg Heblaw yn yr Ysgol yn gweithio'n agos â Thîm Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod cynigioin yn cael eu rhoi ar waith mewn modd sy'n gyson â darpariaethau'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae Fframwaith Gweithredu EOTAS yn darparu trosolwg strategol o newidiadau arfaethedig i wella canlyniadau ar gyfer dysgwyr a phrofiadau staff EOTAS. Mae llawer o'r newidiadau hyn yn canolbwyntio ar drefnu gwasanaethau EOTAS a gwella atebolrwydd. O'r herwydd, ni fyddai wedi bod yn briodol i geisio barn dysgwyr EOTAS ynghylch pethau y dylid eu hystyried yn newidiadau corfforaethol neu weinyddol. Fodd bynnag, wrth i'r polisi manwl ddatblygu, bydd y Grŵp Cyflawni EOTAS yn ceisio ymgysylltu â dysgwyr lle bo'n briodol, er enghraifft, y paneli EOTAS a datgymhwyso'r cwricwlwm, i sicrhau y caiff lais y disgybl ei ystyried ar lefel genedlaethol yn awr ac ar lefel leol yn y dyfodol.

Yr oedd un o'r sylwadau a dderbyniwyd drwy'r cwestiwn hwn yn cyfeirio at nifer 'anghymesur' o ddysgwyr sy'n blant sy'n derbyn gofal (LAC) sy'n derbyn gwasanaethau EOTAS. Ni chafodd y garfan o ddysgwyr ei hystyried yn benodol wrth ddatblygu'r Fframwaith Gweithredu. Nid oes tystiolaeth ddigonol ar gael i gyfiawnhau'r honiad bod y grŵp hwn o ddysgwyr yn cael ei gynrychioli'n anghymesur. Fodd bynnag, bydd datblygu paneli EOTAS aml-asiantaeth a fframweithiau comisiynu eglur, yn helpu i sicrhau bod cefnogaeth briodol i ddysgwyr a fydd yn wynebu amgylchiadau anodd gan gynnwys dysgwyr sy'n LAC, ar gael drwy UCD a'r ddarpariaeth EOTAS ehangach.

Mae'r gofynion cofrestru ar gyfer ysgolion annibynnol wedi'u nodi ar hyn o bryd yn Neddfau Addysg 1996 a 2002. Mae cynnal ysgol annibynnol heb ei chofrestru yn drosedd ac felly rhaid i unrhyw ddarparwr EOTAS yn y sector preifat neu'r trydydd sector fod yn ymwybodol o'r meini prawf hyn, a cheisio cyngor gan Lywodraeth Cymru os credant y gellir eu cyflawni. Dylai awdurdodau lleol ac ysgolion prif ffrwd weithio'n agos gydag unrhyw ddarparwr y maent yn dymuno comisiynu gwasanaethau EOTAS ganddynt, i sicrhau nad yw eu hymwneud yn achosi'r sefydliad i gwrdd â'r meini prawf ar gyfer cofrestru, neu lle y cwrddwyd â'r meini prawf, bod y cofrestriad angenrheidiol wedi digwydd.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gyflwyno system gofrestru ar gyfer darparwyr EOTAS yn y sector preifat a'r trydydd sector goruwch y gofynion a nodwyd ar hyn o bryd ar gyfer ysgolion annibynnol. Yn ogystal â helpu i sicrhau bod dysgwyr yn cael mynediad at ddarpariaeth ddiogel a phriodol, bydd y

fframweithiau comisiynu arfaethedig yn helpu i ganfod pa ddarpariaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd yng Nghymru. Unwaith y bydd map cliriach o wasanaethau'r sector preifat a'r trydydd sector ar gael, bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried a fyddai gofyniad cofrestru newydd yn briodol.

Atodiad: Rhestr o ymatebwyr

1. Afasic Cymru
2. NASUWT
3. Comisiynydd Plant Cymru
4. ASCL Cymru
5. NAHT
6. Estyn
7. UCAC
8. Abertawe UCD
9. Cyngor Bro Morgannwg
10. Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
11. ATL Cymru
12. CLILC
13. Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
14. Cartref dewisol sy'n addysgu'r rhiant
15. Llywodraethwyr Cymru
16. Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-yr-bont ar Ogwr
17. Snap Cymru
18. Cyngor y Gweithlu Addysg
19. Anhysbys
20. Anhysbys
21. Pennaeth Yr Hafan a Swyddog Addysg Mon
22. Anhysbys
23. Anhysbys
24. Anhysbys
25. Anhysbys
26. Anhysbys
27. SIS Cymru
28. Ysgol Uwchradd y Rhyl
29. Anhysbys
30. Anhysbys
31. Anhysbys
32. Cyfarwyddiadau Newydd
33. Anhysbys
34. Anhysbys
35. Anhysbys
36. Anhysbys
37. Cyngor Sir Gâr
38. Anhysbys
39. Anhysbys
40. Unigolyn, Athro Cyflenwi
41. Annibynnol
42. Anhysbys
43. Anhysbys
44. Cyngor Gwynedd ac Ynys Mon
45. Anhysbys
46. Anhysbys